

## Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Nodiadau Cyfarfod : 5ed o Fawrth 2013

**Neuadd Goffa 8.00 y.h**

**Presennol :Y Cynghorwyr ; Danny Davies, Wyn Thomas, Malcolm Howells, Elfed Davies, Carolyn Smethurst, Mali Lloyd a'r Cyngorydd Sir ; Irfon Jones**  
**Ymddiheuridau : Dylan Jones**

<b>Rhif Agenda</b>	<b>Nodiadau/ Pendefyniadau</b>	<b>I'w weithredu gan</b>
Ymwelydd	<p>Cafwyd ymweliad annisgwyl gan Dorian Thomas ac Aled Thomas. Aled Thomas wedi gwneud cais i adeiladu ar Gaeau Pennant, ond mae'r Adran Gynllunio wedi ei wrthod. Dywedodd Mr Thomas mae mab fferm o Llambod yr oedd, gyda gradd mewn Gwyddorau Cyfrifiadurol ac wedi bod yn gweithio gyda Cyswllt Ffermio yn rhoi hyfforddiant ar Gyfrifiadureg. Wedi ei ddiswyddo ac yn gweithio yn yr allt dros y Gaeaf, a gwaith ymgymwrwr amaethyddol yn ystod yr Haf. Gwaith teuluol oedd contractio, ac mae Mr Thomas wedi bod yn gwneud peth gwaith yn yr ardal hon ac am adeiladu tŷ ar dir Pennant, er mwyn lleihau ar y teithio rhwng Llambod ac ardal Rhydargaeau. Wedi gwneud cais o dan TAN 6 'Live, work, dwelling'. Yn gofyn am lythyr o gefnogaeth i gryfhau ei gais. Wyn Thomas yn awgrymu byddai gwneud cais newydd yn well na apêl, ond penderfynnwyd apelio'r gwrthwynebiad.</p>	
Materion yn codi	<p>Cost goleuo'r Gymuned yw;£2,178.43. Mae Cyngor Sir Gâr yn perthyn i Gonsortiwim sy'n prynu trydan, a phan mae cymuned megis Llanpumsaint yn prynu trydan oddi wrth y Sir, mae'r gost yn cynnwys gwneud gwaith cynnal a chadw; newid bulbs ayyb. Er fod cost uned o drydan yn ymddangos yn uchel, rhaid cofio fod graddfa uwch o gost yr uned o drydan i fusnesau.</p> <p>Sŵn cyfarth cŵn Uwchgwili yn llai. Cynigwyd y sylw rhaid derbyn rhywfaint o swm anifeiliaid oherwydd mae cymuned wledig yw Llanpumsaint.</p> <p>Mynedfaön a grewyd ar frys – mewn llaw Gwaith Priffyrdd – I'w wneud yn fuan Cyfleusterau Cyhoeddus – galwad ffôn oddi wrth Rhys Davies yn gofyn beth fyddai penderfyniad y Cyngor ynglyn a chadw neu cau'r Cyfleusterau. Awgrymwyd dylai Llanpumsaint hysbysu'r Sir fod 90,000 o ymwelwyr yn dod i'r pentref ar bererindod i Skanda Vale. Methu a phenderfynu tynged y Tai Bach heb llawer mwy o ymchwil a thrafod. Cyngor Sir wedi cael caniatad gyda'r Neuadd I godi'r Cyfleusterau ond wedi methu a chadw at yr addewid o adael allwedd yng ngofal y Pwyllgor.</p>	

Gohebiaeth	Cais am gyfraniad oddi wrth Ambiwylans Awyr Cymru – l’w drafod eto ym Mis Medi	
Cynllunio	Llandre – caniatad l berson fyw yn y ty heb ymwneud ag amaeth wedi ei ganiatau	
Materion Ariannol	Angen siec l’r Neuadd am £250 – tuag at gost cynnal dathliadau’r Ysgol Derbyniwyd cais Cyngor Llanpumsaint am Praesept o £22.00 Rhaid l’r Clerc dynnu cyflog cyn diwedd y mis.	
UFA	Bont y Felin – dal heb ei drwsio Cŵn ym Mhenllain-ddu; dal l gyfarth Ceir yn gor yrru drwy’r Pentref – yr Heddlu yn cytuno l fonitro Black Rock Investments – rhaid cadw mewn cyswllt neu fydd yr arian yn peidio. Dom fferm yn syrthio ar yr heol gerllaw Bont y Railwe a Rhiw Coopers Rhiw Graig – ymyl yr heol yn mallu ar y tro isaf ac yn gorfodi gyrrwyr l gadw draw l ganol y ffordd	

Cafwyd yn gywir : .....	Cafwyd yn gywir : .....
(Cadeirydd)	(Ysgriennydd)
Dyddiad : .....	Dyddiad: .....